**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

17 Mawrth 2023

Annwyl Jack,

Deiseb P-06-1272 Gwahardd defnyddio 'cymalau dim anifeiliaid anwes' mewn cytundebau tenantiaeth yng Nghymru

Diolch am eich llythyr ynglŷn â'r ddeiseb hon, y trafodom yn ein cyfarfod ar 16 Tachwedd. Penderfynodd yr Aelodau ofyn i'r Gweinidog Newid Hinsawdd am lety dros dro sy'n addas i bobl ag anifeiliaid anwes yn ystod sesiwn graffu ar 7 Rhagfyr 2022 fel rhan o'u hymchwiliad i ddigartrefedd (gweler paragraffau 49 – 60 o Gofnod y Trafodion). Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> *"…a dog or other pets are a real source of companionship and support for people who are homeless, and owning one absolutely should not be a barrier to accessing temporary accommodation at all. And we are really pleased to say that the attitude to pets, and in particular dogs, in emergency accommodation in Wales has changed significantly over recent years, and, in particular, it changed during the pandemic. But we still have—we absolutely still have—a long way to go to ensure that we do not revert back to a position where many are excluded."*

Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud bod disgwyl i awdurdodau lleol edrych yn fanwl ar y tai sydd ar gael i sicrhau bod pobl ag anifeiliaid anwes yn gallu cael llety:

> *"…we expect local authorities to look closely at the range of provision within their area to make sure it's fit for purpose and able to meet the needs of everyone, and that includes people with pets who would otherwise be sleeping rough."*

O ran y sector rhentu preifat, dywedodd y Gweinidog, yn dilyn cychwyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ar 1 Rhagfyr 2022, na all landlord wrthod yn afresymol gais i gael anifail anwes.

Cyfeiriwyd at eich llythyr a thystiolaeth y Gweinidog yn ein hadroddiad ar ddigartrefedd a gyhoeddwyd ar 9 Mawrth (gweler paragraff 75).

Nid oes gan y Pwyllgor unrhyw gynlluniau pellach i edrych yn benodol ar sut caiff 'cymalau dim anifeiliaid anwes' eu defnyddio mewn cytundebau tenantiaeth. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi os bydd y mater yn codi mewn ymchwiliadau yn y dyfodol.

Yn gywir

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.